


# Rhaglen y Gynhadledd*

## Noson Ychwanegol Ddewisol – Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 4.00pm - 5.00pm | **Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd a'r Gwesty** |
| 5.00pm – 5.45pm | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol TPAS Cymru** |
| 7.00pm | **Cinio anffurfiol gyda Cwis Tafarn Hwyliog i ddilyn!** |

## Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 8.45 – 10:30am | **Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd** |

**Croeso i'r Gynhadledd –** Cyflwyniad
David Wilton, Prif Weithredwr, TPAS Cymru

**Yn Agor y Gynhadledd – Neges gan y Gweinidog:**
**Julie James AS –** Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru



Clywch y mewnwelediad diweddaraf gan Weinidog Llywodraeth Cymru, Julie James AS, y mae ei chyfrifoldebau yn cynnwys tai cymdeithasol. Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys tai a gweithgareddau cysylltiedig â thai Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai. Mae hyn yn cynnwys rheoli tai a dyrannu tai cymdeithasol a fforddiadwy.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Dadl Panel Agoriadol Mawr

**Beth yw'r materion mawr y dylai Tenantiaid ymwneud â nhw nawr a pham?**
Mae landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru a thenantiaid yn wynebu pwysau newydd a heriau digynsail felly mae'n hollbwysig bod tenantiaid yn ganolog i drafodaethau a phenderfyniadau am eu cartrefi.

Felly, beth yw'r materion mawr y mae angen ymgysylltu â thenantiaid yn awr â nhw? Darganfyddwch beth yw barn ein panel o denantiaid a gweithwyr tai proffesiynol.

**Cadeirydd y Sesiwn**: Helen White, Prif Weithredwr, Tai Taf

| | |
|---|---|
| 12.00pm-1.15pm | **Cinio**<br>Lluniaeth a Rhwydweithio |

## Gweithdai: Sesiwn A:
### Eich dewis o sesiynau gweithdy

**A1**

**Sesiwn Holi ac Ateb SATC23 – y cyfan sydd angen i chi ei wybod am safonau newydd ar gyfer eich cartref**

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn lansio eu Safon Ansawdd Tai Cymru ddiwygiedig - SATC2023. Diben y safon newydd yw gwella ansawdd yr holl gartrefi cymdeithasol yng Nghymru ac mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob landlord cymdeithasol i gyrraedd y safonau.

Clywch yn uniongyrchol gan swyddog LlC sy'n arwain ar ddatblygiad y safon hon, darganfyddwch bopeth sydd angen ei wybod am y newidiadau a'r hyn y gallwch ddisgwyl ei weld, wrth symud ymlaen. Mae'r gweithdy hwn yn gyfle i ofyn cwestiynau sydd gennych am y safon newydd a'r hyn mae'n ei olygu i'ch cartrefi a'ch sefydliadau.

**Siaradwyr:**
- Darren Hatton: Pennaeth Safonau Tai, Llywodraeth Cymru
- Elizabeth Taylor: Policy Lead, TPAS Cymru

**A2**

**Cynnwys Tenantiaid wrth Osod Rhenti**
Sesiwn Astudiaeth Achos

Mae **'Safon Rhent a Thâl Gwasanaeth' Llywodraeth Cymru** yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru ddangos bod ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol â thenantiaid yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer gosod rhenti.

Darganfyddwch sut mae Tai ClwydAlyn wedi bod yn cynnwys eu tenantiaid a'u preswylwyr mewn trafodaethau gosod rhent. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyfle gwych i glywed am yr amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd a'r gwahaniaeth y mae dylanwad tenantiaid wedi'i gael ar renti a fforddiadwyedd.

**Siaradwyr:**
- Suzanne Mazzone, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, ClwydAlyn
- Peter Smith-Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Preswylwyr ClwydAlyn

| | |
|---|---|
| **A3** | **Tai Awdurdod Lleol (cyngor) Cymru - heriau a gwirio**<br>Mae 11 o gynghorau Cymru yn darparu cartrefi a gwasanaethau cysylltiedig i denantiaid ledled Cymru. Darganfyddwch yr holl wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau a'r cyfleoedd y mae landlordiaid cymdeithasol awdurdodau lleol yn eu hwynebu a sut maent yn diwallu anghenion eu tenantiaid a'u cymunedau.<br><br>Byddwn yn clywed gan gynrychiolwyr darparwyr tai 2 awdurdod lleol am yr hyn sy'n digwydd a sut maent yn gwirio ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'w tenantiaid.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Gaynor Toft, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro<br>• Geoff Davies, Swyddog Arweiniol, Tai Cymunedol Sir Ddinbych |
| **A4** | **Cwrdd â'r Rheoleiddiwr: Rheoleiddio Cymdeithasau Tai**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru i ddiogelu tenantiaid a buddsoddiad mewn tai. Dewch i'r gweithdy hwn a chlywed gan dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru.<br><br>Darganfyddwch sut mae Rheoleiddio yn gweithio ar hyn o bryd, beth mae'r Rheoleiddwyr yn ei weld a sut mae rheoleiddio yn amddiffyn tenantiaid.<br><br>**Siaradwr:** Uwch swyddog, tîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru |
| **A5** | **'O, mae gennym ddigon o gynorthwywyr gwirfoddol diolch' meddai neb erioed!**<br>Wedi ei ailadrodd fel D5<br><br>Os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd cymunedol neu denant lle rydych chi'n byw, ydych chi erioed wedi meddwl tybed ble mae pawb arall? Neu ai'r un bobl sy'n mynychu digwyddiadau a phrosiectau bob amser? Yn aml gall cynorthwywyr / aelodau / gwirfoddolwyr deimlo'n anodd cael hyd iddynt, ond maen nhw allan yna!<br><br>Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio awgrymiadau da ar gyfer cyrraedd a denu pobl at eich achos, grŵp neu brosiect.<br><br>**Siaradwr:** Sam Evans, Cydymaith TPAS Cymru |
| **A6** | **Sut i leihau eich biliau ynni a chadw eich cartref yn iach – gyda Cymru Gynnes**<br>Wedi ei ailadrodd fel C3<br><br>Mae cartref iach, sy'n gynnes ac yn rhydd o leithder yn bwysig i bawb.<br><br>Yn ystod y gweithdy hwn bydd **Cymru Gynnes** yn darparu cymorth a chyngor i rymuso a galluogi trigolion i leihau eu biliau ynni er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi tanwydd.<br><br>Ymunwch â'r sesiwn hon i ddysgu sut y gallwn eu galluogi a'u hannog i wella eu hiechyd a'u lles a'u grymuso fel eu bod yn dod yn fwy gwydn ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.<br><br>**Siaradwyr:** Cymru Gynnes |
| 2.30pm - 3:15pm | **Egwyl am Luniaeth** |

| Gweithdai: Sesiwn B: Eich dewis o sesiynau gweithdy | |
|---|---|
| **B1** | **Bodloni blaenoriaethau tai a thenantiaid – a yw landlordiaid yn cael y cydbwysedd cywir?**<br>Mae gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru nifer o gamau blaenoriaeth y mae angen iddynt eu cyflawni: o ddarparu cartrefi newydd i gynnal a chadw cartrefi presennol; datgarboneiddio i ddarparu gwasanaethau gwych i'w tenantiaid, a phawb, tra'n cadw rhenti'n fforddiadwy! Sut maent yn blaenoriaethu'r holl gamau hyn ac, a ydynt yn cael y cydbwysedd yn iawn? Ymunwch â ni ar gyfer y drafodaeth banel amserol a bywiog hon i glywed ystod o feddyliau a barn a chyfle i rannu eich un chi.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Helen White, Prif Weithredwr Tai Taf<br>• Geoff Davies, Swyddog Arweiniol, Tai Cymunedol Sir Ddinbych,<br>• Wendy Deardon, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Shelter Cymru |
| **B2** | **Gwasanaeth atgyweirio gorau'r Byd – gadewch i ni gyd-ddylunio'r gwasanaeth perffaith gyda'n gilydd!'**<br>Mae atgyweirio a chynnal a chadw cartrefi yn un o'r cwynion mwyaf mewn gwasanaethau tai cymdeithasol – felly beth ddylai'r gwasanaeth perffaith fod? Yn ystod y gweithdy rhyngweithiol hwn, gadewch i ni feddwl yn gadarnhaol am sut y dylai gwasanaeth gwych edrych a theimlo. Beth yw blaenoriaethau tenantiaid a sut gall landlordiaid ddarparu gwasanaeth gwych gydag adnoddau prin?<br><br>**Hwylusydd:** TPAS Cymru |
| **B3** | **Cael llais yn y system gynllunio: popeth sydd angen i gymunedau a thenantiaid ei wybod**<br>Mae Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) yn sefydliad elusennol annibynnol sy'n helpu unigolion a chymunedau ledled Cymru i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio.<br><br>Bydd y gweithdy hwn yn archwilio gwerth ymgysylltiad cymunedol mewn perthynas ag ystyriaethau cynllunio a datblygiadau tai cymdeithasol.<br>Byddwch hefyd yn darganfod sut y gall CCC gefnogi a chynorthwyo ymgysylltiad cymunedol ystyrlon yn y broses gynllunio ar gyfer tenantiaid a chymunedau.<br><br>**Siaradwr:** Mark Jones, Swyddog Ymgysylltu Cynllunio, Cymorth Cynllunio Cymru |
| **B4** | **Gwella gwasanaethau trwy gyfranogiad tenantiaid hyblyg**<br>Sesiwn astudiaeth achos<br><br>Darganfyddwch sut mae Tai Hafod yn cynnwys tenantiaid mewn ffyrdd arloesol a hyblyg i wella gwasanaethau. Mae Hafod yn edrych yn rheolaidd ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu: maent yn deall pa mor bwysig yw bod yn 'hyblyg' yn eu dull o fonitro eu gwasanaethau trwy wrando ar straeon a phrofiadau eu cwsmeriaid, yn ogystal ag edrych ar y niferoedd (ffeithiau a ffigurau).<br><br>Yn ystod y gweithdy rhyngweithiol hwn cewch glywed sut, trwy fod yn agored i wahanol ffyrdd o gynnwys tenantiaid wrth archwilio/monitro gwasanaethau. Mae Hafod yn gweld sut mae eu gwasanaethau'n effeithio'n wirioneddol ar eu cwsmeriaid, ac o ganlyniad yn gwneud yn siŵr eu bod wir yn helpu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.<br><br>**Siaradwyr:** Michelle McGregor, Swyddog Ymgysylltu â Chwsmeriaid, Tai Hafod<br>Sean O'Sullivan a Julian Morris – Tenantiaid Tai Hafod |

| | |
|---|---|
| **B5** | **Rhoi hwb i'ch pobl!**<br>Ydych chi'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'ch grŵp tenantiaid neu grŵp cymunedol, cymdogion, neu brosiect? Ydych chi weithiau'n dymuno pe bai gennych chi gronfa o syniadau byr a miniog a fydd yn rhoi hwb o egni i'r bobl yn yr ystafell pan fod angen sesiwn ysgogol i gadw'r momentwm i fynd?<br><br>Yn y sesiwn ymarferol hon byddwn yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o egnïwyr profedig, fel y byddwch yn mynd i ffwrdd â phecyn offer bach o syniadau y gallwch ei ddefnyddio unrhyw bryd!<br><br>**Siaradwr**: Sam Evans, Cydymaith TPAS Cymru |
| **B6** | **Beth sy'n mynd ymlaen yn yr Alban?**<br>Ymunwch â Tony Kelly ac Eveline Armour o TPAS yr Alban i ddarganfod sut mae tenantiaid a landlordiaid yn yr Alban yn wynebu heriau trwy ymgysylltu â thenantiaid yn llwyddiannus.<br><br>Clywch am straeon llwyddiant diweddar Gwobrau Arfer Da TPAS yr Alban sydd wedi cael effaith fawr mewn cymunedau. Gan gynnwys prosiectau sy'n cynnwys:<br><br>• Cynnwys pobl ifanc ac ymestyn allan i'r gymuned.<br>• Adeiladu partneriaethau i dargedu anghenion a nodwyd.<br><br>Dysgwch am yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban gyda chwaer sefydliad TPAS Cymru<br><br>**Siaradwyr**: Tony Kelly ac Eveline Armour, TPAS yr Alban |
| 4.30pm | **Diwedd Dydd 1** |
| 4.30pm – 5.15pm | **Sesiwn ychwanegol opsiynol - 'Ymlacio a Myfyrio'**<br>Ar ôl diwrnod cyntaf prysur yn y gynhadledd, ymunwch â chynrychiolwyr eraill am gyfle anffurfiol i fyfyrio ar y diwrnod. Beth ydych chi wedi'i ddysgu a pha syniadau fyddwch chi'n mynd adref efo chi? Bydd hwn hefyd yn gyfle i rannu eich syniadau o weithdai'r diwrnodau ac edrych ar yr hyn sydd i ddod ar yr ail ddiwrnod.<br><br>**Siaradwyr**: TPAS Cymru |
| 7.00pm | **Cinio'r gynhadledd gydag adloniant i ddilyn** |

## Dydd Iai 167 Tachwedd 2023

| Amser | Sesiwn |
|---|---|
| 8.30 – 9.30am | **Cofrestru ar gyfer y gynhadledd** |
| **Gweithdai: Sesiwn C:**<br>**Eich dewis o sesiynau gweithdy** | |
| **C1** | **Y gwir go iawn am dai Sero Net**<br>Y llynedd yn y Gynhadledd buom yn sgwrsio am beth yw Sero Net a beth mae'n ei olygu i denantiaid. Eleni, rydym yn edrych ar sefyllfa Cymru o ran Sero Net hyd yma, gan amlygu prosiectau a phrofiadau y mae tenantiaid a staff wedi'u cael hyd yn hyn. Beth yw'r heriau newydd sy'n ein hwynebu o ran Sero Net? Beth yw rhai o'r prosiectau a'r arloesiadau cyffrous sy'n dod allan o Sero Net? A mwy!<br><br>**Siaradwr:** Dusi Thomas, Bron Afon Housing Association<br>Mark Cassidy and Glyn Forsdick, Denbighshire Council<br>Paul Painter, Adra |
| **C2** | **Byw gyda Deallusrwydd Artiffisial**<br>Mae Deallusrwydd Artiffisial wedi ffrwydro yn ein newyddion ar gyflymder anhygoel ac wedi denu llawer iawn o sylw cyhoeddus: da a drwg. Ond a ddylech chi gael eich poeni?<br><br>Darganfyddwch beth yw deallusrwydd artiffisial mewn gwirionedd, beth mae'n gallu ei wneud nawr a sut bydd yn trawsnewid y ffordd rydyn ni'n byw ac yn gweithio nawr ac yn y dyfodol. Gan ganolbwyntio ar ChatGPT byddwn yn darparu enghreifftiau bywyd go iawn o'r hyn y gall ei wneud i wneud eich bywyd bob dydd yn haws gartref ac yn y gwaith.<br><br>**Siaradwyr:** Martin Little ac Eleanor Speer, TPAS Cymru |
| **C3** | **Sut i leihau eich biliau ynni a chadw eich cartref yn iach – gyda Cymru Gynnes**<br>Ailadroddiad o C3<br><br>Mae cartref iach, sy'n gynnes ac yn rhydd o leithder yn bwysig i bawb.<br><br>Yn ystod y gweithdy hwn bydd **Cymru Gynnes** yn darparu cymorth a chyngor i rymuso a galluogi trigolion i leihau eu biliau ynni er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi tanwydd.<br><br>Ymunwch â'r sesiwn hon i ddysgu sut y gallwn eu galluogi a'u hannog i wella eu hiechyd a'u lles a'u grymuso fel eu bod yn dod yn fwy gwydn ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.<br><br>**Siaradwyr:** Cymru Gynnes |
| **C4** | **Yn ddiogel fel tai? – Adeiladau Diogelach yng Nghymru**<br>Mae Papur Gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, yn gosod trigolion wrth wraidd diwygiadau diogelwch adeiladau yng Nghymru. Bydd cynlluniau'n sefydlu system gadarn a rheoleiddiol, yn ogystal â gofyniad i landlordiaid gael 'person atebol' i ymgysylltu â phreswylwyr mewn ffordd ragweithiol ac ystyrlon.<br><br>Darganfyddwch fwy am y ddeddfwriaeth tai newydd arfaethedig bwysig hon a rhannwch eich barn yn uniongyrchol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru sydd |

| | |
|---|---|
| | am sicrhau bod llais a mewnwelediad cynrychiolaeth eang tenantiaid yn cael eu clywed a bod eu profiadau bywyd yn cael eu hystyried.<br><br>**Siaradwr:** Mike Corrigan, Llywodraeth Cymru |
| **C5** | **Arian, Arian, Arian – ym myd dyn tlawd**<br>Ar gyfer llawer o brosiectau a gweithgareddau cymunedol, credwch neu beidio, nid oes angen cronfeydd mawr o arian fel arfer i wneud i rywbeth ddigwydd. Hefyd, i fod yn onest, pwy sydd eisiau llenwi ceisiadau ariannu hir a chymhleth, ac anfon llwythi o dystiolaeth wedyn?<br><br>Bydd y sesiwn hon yn mynd â chi trwy ystod o syniadau ar gyfer adeiladu cronfeydd bach o arian, yn ogystal â ffyrdd creadigol eraill o gael yr adnoddau sydd eu hangen arnoch - heb lenwir un ffurflen ac sydd mewn gwirionedd yn adeiladu ysbryd cymunedol ar yr un pryd!<br><br>**Siaradwr:** Sam Evans, TPAS Cymru Associate |
| 10.45 – 11.30am | **Egwyl am luniaeth** |
| **Gweithdai: Sesiwn D:<br>Eich dewis o sesiynau gweithdy** | |
| **D1** | **Oes ots neu ddim? Beth sy'n bwysig i denantiaid yng Nghymru?**<br>Dyma syrpreis annisgwyl cynhadledd y llynedd, felly nid ydych eisiau colli'r sesiwn hon wrth iddi ddychwelyd yn fwy ac yn well! Rydym eisiau eich barn CHI ar nifer o bynciau. Rydym eisiau sefydlu ymwybyddiaeth tenantiaid o faterion cyfoes a gofyn i chi a yw'r rhain yn bwysig i chi ai peidio? Bydd yn ddadleuol heb unrhyw atebion cywir nac anghywir. Swnio'n ddiddorol? Dyma sut bydd y gwaith sesiwn yn gweithio:<br><br>1. Bydd y gwesteiwyr yn cyflwyno'r achos o blaid ac yn erbyn ar bwnc<br>2. Bydd mynychwyr wedyn yn cael cyfle i ychwanegu eich barn o blaid neu yn erbyn<br>3. Yna byddwch yn pleidleisio i ddweud 'oes ots neu ddim'.<br><br>Bydd y sesiwn hon yn rhyngweithiol ac yn hwyl, gan roi cyfle i chi ddweud eich dweud dros ystod o bynciau tai a chymunedol.<br><br>**Siaradwyr:** David Wilton ac Eleanor Speer, TPAS Cymru |
| **D2** | **Cymdeithasau Tai yng Nghymru - yr holl newyddion a diweddariadau diweddaraf**<br>Darganfyddwch yr holl newyddion diweddaraf am Gymdeithasau Tai yng Nghymru gan Gartrefi Cymunedol Cymru sy'n cynrychioli 34 o gymdeithasau tai dielw sy'n darparu bron i 165,000 o gartrefi i 10% o boblogaeth Cymru.<br><br>Yn y gweithdy craff hwn byddwch yn cael gwybod am y pwysau newydd a'r heriau digynsail y mae Cymdeithasau Tai yn eu hwynebu, ond yn bwysicaf oll, sut maent yn ymateb i'r heriau hyn i sicrhau y gallant barhau i ddarparu cartrefi fforddiadwy a diogel a chefnogi eu tenantiaid a'u cymunedau.<br><br>**Siaradwr:** Elle Lock, Pennaeth Polisi a Materion Allanol, CCC |
| **D3** | **Celf Ymwybyddiaeth Ofalgar (Niwrograffeg) – rhowch gynnig ar ddarganfod beth mae'n ei olygu!**<br>Dewch i'r gweithdy hwyliog ac anffurfiol hwn i roi cynnig ar weithgaredd ymwybyddiaeth ofalgar hynod ddiddorol a gweld lle gall eich creadigrwydd fynd â chi! |

| | |
|---|---|
| | Mae Celf Niwrograffig (Ymwybyddiaeth Ofalgar) yn ffurf ar gelfyddyd therapiwtig sy'n helpu i droi anhrefn a straen yn rhywbeth tawelu a heddychlon. Gellir defnyddio'r dull hwn i ymgynghori â phreswylwyr a rhannu gwybodaeth â nhw wrth greu paentiadau hardd, cardiau a llawer mwy o eitemau celf/crefft.<br><br>O.N. nid oes angen profiad celf arnoch, mae croeso i bawb ddod i roi cynnig arni!<br><br>**Cynhalwyr:** Tenantiaid Tai Cymru a'r Gorllewin |
| **D4** | **Cwrdd â'r Ombwdsmon: Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a beth dydyn ni ddim yn ei wneud**<br>Bydd y sesiwn addysgiadol hon yn rhoi trosolwg o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a'i rôl, yn ogystal â mewnwelediad a gwybodaeth hanfodol:<br>• Trafodaeth ar y mathau o gwynion am dai y maent yn delio â hwy;<br>• Gwybodaeth am eu pwerau rhagweithiol a sut maent yn defnyddio Safonau Cwynion gydag Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai;<br>• Disgwyliadau ar ddarparwyr Tai, a sut y gall swyddfa OGCC eu helpu i gydymffurfio.<br>• Astudiaethau achos tai – beth sy'n digwydd pan na fydd cyrff cyhoeddus yn cael cwynion yn iawn, a'r effaith y gall OGCC ei chael.<br><br>**Siaradwyr:**<br>• Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>• Matt Harris, Pennaeth Awdurdod Safonau Cwynion, Tîm Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **D5** | **'O, mae gennym ddigon o gynorthwywyr gwirfoddol diolch' meddai neb erioed!**<br>Ailadroddiad o A5<br><br>Os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd cymunedol neu denant lle rydych chi'n byw, ydych chi erioed wedi meddwl tybed ble mae pawb arall? Neu ai'r un bobl sy'n mynychu digwyddiadau a phrosiectau bob amser? Yn aml gall cynorthwywyr / aelodau / gwirfoddolwyr deimlo'n anodd cael hyd iddynt, ond maen nhw allan yna!<br><br>Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio awgrymiadau da ar gyfer cyrraedd a denu pobl at eich achos, grŵp neu brosiect.<br><br>**Siaradwr:** Sam Evans, Cydymaith TPAS Cymru |
| 12.45 – 1.45pm | **Cinio** |
| **Sesiwn Derfynol: Dylunio datrysiadau ar gyfer ein dyfodol gyda'n gilydd** | |
| | Peidiwch â cholli ein sesiwn ryngweithiol olaf wrth i ni archwilio syniadau ynghylch sut y gall tenantiaid, landlordiaid a'r llywodraeth gwrdd â'r heriau y mae'r sector tai a'n cymunedau yn eu hwynebu, wrth i ni feddwl am ddyfodol tai yng Nghymru yn 2024.<br><br>Byddwch yn rhan o'r sesiwn gloi ddifyr ac amserol hon.<br><br>Efallai y byddwch hefyd yn ennill gwobr yn ein Raffl Fawr sesiwn gloi! |
| 3.00pm | **Diwedd y Gynhadledd a Gadael** |

** rhaglen yn amodol ar newidiadau*